



Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

2023 dsc 1

Nodiadau Esboniadol

Social Partnership and Public Procurement (Wales) Act 2023

2023 asc 1

Explanatory Notes

£11.50



Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

2023 dsc 1

Nodiadau Esboniadol

Social Partnership and Public Procurement (Wales) Act 2023

2023 asc 1

Explanatory Notes

DEDDF PARTNERIAETH GYMDEITHASOL A CHAFFAEL CYHOEDDUS (CYMRU) 2023

NODIADAU ESBONIADOL

CYFLWYNIAD

1. Mae'r nodiadau esboniadol hyn ar gyfer Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) a basiwyd gan Senedd Cymru ar 6 Mehefin 2022 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 24 Mai 2023.
2. Fe'u lluniwyd gan Gyfarwyddiaeth Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Nid ydynt yn rhan o'r Ddeddf ac nid ydynt wedi eu cymeradwyo gan y Senedd. Dylid darllen y nodiadau ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan ohoni.
3. Ni fwriedir i'r nodiadau fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Ddeddf. Pan fo adran neu ran o adran yn hunanesboniadol ac nad ymddengys bod angen rhoi esboniad neu wneud sylw pellach arni, nis rhoddir.

TROSOLWG CYFFREDINOL O'R DDEDDF

4. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer fframwaith i hybu llesiant pobl Cymru drwy wella datblygu cynaliadwy (gan gynnwys drwy wella gwasanaethau cyhoeddus) drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg a chaffael cymdeithasol gyfrifol.

RHAN 1

Y CYNGOR PARTNERIAETH GYMDEITHASOL

Adran 1 - Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cymru

5. Mae adran 1 yn sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cymru ("CPG") ac yn disgrifio ei swyddogaeth graidd ynghyd â'r dibenion y caiff arfer y swyddogaeth honno ar eu cyfer.
6. Swyddogaeth graidd yr CPG yw darparu gwybodaeth a chyngor i Weinidogion Cymru mewn perthynas â materion penodol. Mae'r swyddogaeth hon yn ehangach na chynghori Gweinidogion Cymru yn unig a gallai gynnwys creu neu ddarparu, ymhlith pethau eraill, ystadegau, crynodebau ffeithiol, copïau o ddogfennau (boed y rheini ar gael i'r cyhoedd ai peidio) ac yn y blaen. Nid oes unrhyw gyfyngiad penodol ar y math o wybodaeth neu gyngor y gall yr CPG ei darparu neu ei ddarparu.

SOCIAL PARTNERSHIP AND PUBLIC PROCUREMENT (WALES) ACT 2023

EXPLANATORY NOTES

INTRODUCTION

1. These explanatory notes are for the Social Partnership and Public Procurement (Wales) Act which was passed by Senedd Cymru on 6 June 2022 and received Royal Assent on 24 May 2023.
2. They have been prepared by the Social Partnership and Fair Work Directorate of the Welsh Government to assist the reader of the Act. They do not form part of the Act and have not been endorsed by the Senedd. The notes should be read in conjunction with the Act but are not part of it.
3. The notes are not meant to be a comprehensive description of the Act. Where a section or part of a section is self-explanatory and does not seem to require any further explanation or comment, none is provided.

GENERAL OVERVIEW OF THE ACT

4. The Act provides for a framework to promote the well-being of the people of Wales by enhancing sustainable development (including by improving public services) through social partnership working, promoting fair work and socially responsible procurement.

PART 1

THE SOCIAL PARTNERSHIP COUNCIL

Section 1 - Social Partnership Council for Wales

5. Section 1 establishes the Social Partnership Council for Wales (“SPC”) and describes its core function together with the purposes for which it may exercise that function.
6. The SPC’s core function is to provide information and advice to the Welsh Ministers on certain matters. This function is wider than merely advising the Welsh Ministers and could include the creation or provision of, among other things, statistics, factual summaries, copies of documents (whether publicly available or otherwise) and so on. There is no explicit restriction on the type of information or advice that the SPC can provide.

7. Caiff yr CPG ddarparu gwybodaeth a chyngor i Weinidogion Cymru at ddibenion gwella'r pedwar math o lesiant (economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol) y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("Deddf 2015") yn eu hyrwyddo. Un elfen allweddol o hyn yw mabwysiadu egwyddorion partneriaeth gymdeithasol i wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r dibenion hyn yn fwriadol eang er mwyn adlewyrchu'r ystod eang o bynciau y bydd yr CPG yn eu trafod.
8. Yn ei hanfod, caiff yr CPG ddarparu gwybodaeth a chyngor ar y materion hynny y mae'r Ddeddf yn ymdrin â hwy:
 - (a) y dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol o dan Ran 2 o'r Ddeddf;
 - (b) ymgyrredd at gyflawni nod llesiant "Cymru lewyrchus" gan gyrrff cyhoeddus wrth gyflawni datblygu cynaliadwy o dan Ddeddf 2015;
 - (c) y swyddogaethau a roddir i awdurdodau contractio a Gweinidogion Cymru o dan Ran 3 (caffael cymdeithasol gyfrifol).

Mewn perthynas â (b), mae cylch gwaith yr CPG yn cynnwys "ymgyrredd at" nod "Cymru lewyrchus" gan bob corff y mae'n ofynnol iddo gyflawni datblygu cynaliadwy o dan adran 3 o Ddeddf 2015. Er enghraifft, gallai'r CPG ddarparu gwybodaeth neu gyngor i Weinidogion Cymru ynghylch gweithgarwch ganddynt i wella llesiant economaidd Cymru pe bai'r gweithgarwch hwnnw'n gysylltiedig â nod "Cymru lewyrchus".

9. Mae'r Ddeddf yn darparu hyblygrwydd o ran yr hyn sy'n sbarduno cyngor neu wybodaeth a ddarperir gan yr CPG (gall yr CPG ddarparu cyngor neu wybodaeth ohono'i hun, neu ar gais Gweinidogion Cymru). Caiff yr CPG felly weithredu ar ei liwt ei hun os yw'n dod yn ymwybodol o bwnc y mae'n penderfynu y dylai ddarparu gwybodaeth neu gyngor yn ei glych. Pan fo Gweinidogion Cymru yn ceisio gwybodaeth neu gyngor gan yr CPG, rhaid ei ddarparu neu ei ddarparu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Adran 2 - Aelodaeth Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cymru

10. Mae adran 2 yn darparu mai Prif Weinidog Cymru fydd yn cadeirio'r CPG fel arfer, ac y bydd yn cynnwys tri math o aelod - aelodau o Lywodraeth Cymru (a allai fod yn unrhyw un neu ragor o Weinidogion Cymru neu Ddirprwy Weinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol neu unrhyw aelod o staff Llywodraeth Cymru), naw cynrychiolydd cyflogwyr yng Nghymru a naw cynrychiolydd gweithwyr yng Nghymru.
11. Nid oes unrhyw derfyn ar nifer yr aelodau Llywodraeth Cymru o'r CPG, a bydd hynny'n golygu y gall unigolion gwahanol fynychu'r CPG ar adegau gwahanol. Y Prif Weinidog fydd yn penderfynu pa unigolion sy'n gweithredu fel aelodau Llywodraeth Cymru yn ystod cyfarfod penodol o'r CPG.

7. The purposes for which the SPC may provide information and advice to the Welsh Ministers are to enhance the four types of well-being (economic, environmental, social, and cultural) promoted by the Well-being and Future Generations Act (Wales) 2015 (“the 2015 Act”). A key element of this is adopting social partnership principles to improve public services in Wales. These purposes are deliberately broad to reflect the wide range of topics the SPC will discuss.
8. The SPC may provide information and advice on, essentially, those matters dealt with by the Act:
 - (a) the social partnership duties under Part 2 of the Act;
 - (b) the pursuit of the “A Prosperous Wales” well-being goal by public bodies when carrying out sustainable development under the 2015 Act;
 - (c) the functions conferred on contracting authorities and the Welsh Ministers under Part 3 (socially responsible procurement).

In relation to (b), the SPC’s remit includes the “pursuit” of the “A Prosperous Wales” goal by all bodies required to carry out sustainable development under section 3 of the 2015 Act. For example, the SPC would be able to provide information or advice to the Welsh Ministers about activity they were taking to improve the economic well-being of Wales if that activity was linked to the “A Prosperous Wales” goal.

9. The Act provides for flexibility as to how SPC advice or provision of information is instigated (it can be initiated by either the SPC itself or the Welsh Ministers). The SPC is therefore able to act on its own initiative if it becomes aware of a topic in relation to which it determines it should provide information or advice. Where information or advice is requested from the SPC by the Welsh Ministers, it must be provided as soon as reasonably practicable.

Section 2 – Membership of the Social Partnership Council for Wales

10. Section 2 provides that the SPC will ordinarily be chaired by the First Minister of Wales and consist of three types of members – Welsh Government members (who could be any of the Welsh Ministers or Deputy Welsh Ministers, the Counsel General or any member of staff of the Welsh Government), nine representatives of employers in Wales and nine representatives of workers in Wales.
11. There is no numerical limit on the number of Welsh Government members of the SPC which will allow for different individuals to attend the SPC at different times. Which individuals act as Welsh Government members at a particular meeting of the SPC is to be determined by the First Minister.

12. Y Prif Weinidog fydd yn penodi'r cynrychiolwyr cyflogwyr a'r cynrychiolwyr gweithwyr. Mae'r ffaith y bydd nifer cyfartal o gynrychiolwyr cyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr yn adlewyrchu natur gydweithredol partneriaeth gymdeithasol a chydraddoldeb cynrychiolwyr sy'n gyflogwyr ac yn weithwyr yn y broses o gynghori Gweinidogion Cymru.
13. Mae adran 2(4) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Weinidog gymryd pob cam rhesymol i benodi naw cynrychiolydd cyflogwyr a naw cynrychiolydd gweithwyr o fewn chwe mis i'r dyddiad y daw adran 2(4) ei hun i rym.
14. Mae adran 2(5) yn darparu bod yr CPG yn grŵp ar y cyd na all ond gweithredu ar y cyd wrth arfer ei swyddogaethau. Felly ni all aelodau arfer swyddogaethau'r CPG yn unigol; rhaid gwneud hyn ar y cyd â phob aelod arall. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu natur gydweithredol partneriaeth gymdeithasol.

Adrannau 3 a 4 - Cynrychiolwyr cyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr

15. Mae'r adrannau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch pwy y gall y Prif Weinidog ei benodi'n gynrychiolydd cyflogwyr neu'n gynrychiolydd gweithwyr. Rhaid i gynrychiolwyr cyflogwyr fod yn unigolion y mae'r Prif Weinidog o'r farn eu bod yn cynrychioli categorïau penodol o gyflogwyr yng Nghymru fel y'u pennir yn adran 3. Rhaid i gynrychiolwyr gweithwyr fod yn unigolion y mae'r Prif Weinidog o'r farn eu bod yn cynrychioli staff sy'n gweithio i gyflogwyr ym mhob un o'r categorïau hynny yng Nghymru.
16. Mae gan y Prif Weinidog ddisgresiwn eang o ran penodi unigolion gan mai'r unig ofyniad ar gyfer penodi yw bod y Prif Weinidog wedi dod i farn bod unigolyn penodol yn cynrychioli sefydliadau neu staff perthnasol (fel y bo'n briodol). Ond mewn gwirionedd, mae'r broses enwebu sydd wedi ei chynnwys yn adran 5 yn cyfyngu ar y disgresiwn hwn yn sylweddol.
17. Mae cynrychiolwyr cyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr yn cyflawni eu rôl fel unigolion, ni waeth beth fo'u cysylltiad ag unrhyw sefydliad y tu allan i'r CPG (e.e. corff cyhoeddus neu undeb llafur).
18. Y nod yw y bydd cynrychiolwyr cyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr yn gallu cynrychioli amrywiaeth eang o garfanau a safbwyntiau.

Adran 5 - Enwebu aelodau penodedig

19. Mae adran 5(1) yn darparu bod rhaid i'r Prif Weinidog, cyn penodi cynrychiolwyr cyflogwyr, geisio enwebiadau gan sefydliadau y mae'r Prif Weinidog o'r farn eu bod yn cynrychioli safbwyntiau pob categori o gyflogwr sydd i'w gynrychioli gan gynrychiolwyr cyflogwyr. Fodd bynnag, nid oes gorfodaeth ar y Prif Weinidog i dderbyn enwebiadau ar gyfer cynrychiolwyr cyflogwyr a chaniateir iddo benodi un neu ragor o unigolion nad ydynt wedi eu henwebu yn y modd hwnnw.

12. Both the employer and worker representatives will be appointed by the First Minister. The fact that there will be an equal number of employer and worker representatives reflects the collaborative nature of social partnership and the equality of employer and worker representatives in the process of advising the Welsh Ministers.
13. Section 2(4) requires the First Minister to take all reasonable steps to appoint nine employer and nine worker representatives within six months of section 2(4) itself coming into force.
14. Section 2(5) provides that the SPC is a collective group that can only act jointly in its functions. Therefore, members cannot individually perform the functions of the SPC, this must be done jointly with each other member. This approach reflects the collaborative nature of social partnership.

Sections 3 and 4 – Employer and worker representatives

15. These sections make provision about who can be appointed as an employer or worker representative by the First Minister. Employer representatives must be individuals that the First Minister considers represent certain categories of employer in Wales as specified in section 3. Worker representatives must be individuals the First Minister considers represent staff working for employers in each of those categories in Wales.
16. The First Minister's discretion in appointing individuals is broad in that the only requirement for appointment is that the First Minister has formed a view that a particular individual represents relevant organisations or staff (as the case may be). However, this discretion is, in practice, significantly curtailed by the nomination process contained in section five.
17. Employer and worker representatives carry out their role as individuals, regardless of their connection with any organisation external to the SPC (e.g. a public body or a trade union).
18. It is intended that employer and worker representatives will be able to represent a wide variety of constituencies and perspectives.

Section 5 - Nomination of appointed members

19. Section 5(1) provides that, before appointing employer representatives the First Minister must seek nominations from organisations the First Minister considers represent the views of each category of employers to be represented by employer representatives. However, the First Minister is not obliged to accept nominations for employee representatives and may appoint one or more individuals not so nominated.

20. Rhaid i'r Prif Weinidog roi sylw i unrhyw enwebiadau a wnaed wrth benodi cynrychiolwyr cyflogwyr. Bydd hyn yn sicrhau y gall ystod eang o sefydliadau'r sector preifat a'r sector cyhoeddus ddylanwadu ar benodi cynrychiolwyr cyflogwyr i'r CPG.
21. Mae adran 5(2) yn darparu bod rhaid i'r Prif Weinidog geisio enwebiadau gan TUC Cymru cyn penodi cynrychiolwyr gweithwyr.
22. Ni chaiff y Prif Weinidog ond penodi cynrychiolwyr gweithwyr a enwebwyd gan TUC Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod cynrychiolwyr gweithwyr yn wirioneddol gynrychiadol o brofiad cyfunol y gweithlu.
23. Fodd bynnag, nid oes gorfodaeth ar y Prif Weinidog i benodi pob un o'r unigolion a enwebwyd gan TUC Cymru, nac unrhyw unigolyn o'u plith, i fod yn gynrychiolydd gweithwyr. Felly gallai'r Prif Weinidog benderfynu peidio â phenodi un neu ragor o enwebeion TUC Cymru a gofyn am enwebiadau eraill.
24. Y nod yw creu grŵp amrywiol drwy ddarparu ar gyfer sicrhau bod ystod eang o gyflogwyr a gweithwyr yn cael eu cynrychioli ar yr CPG.

Adran 6 - Cyfnod penodiadau

25. Mae'r adran hon yn darparu y penodir cynrychiolwyr cyflogwyr neu gynrychiolwyr gweithwyr am dair blynedd oni bai bod y Prif Weinidog yn terfynu eu penodiad neu eu bod yn ymddiswyddo drwy hysbysu'r Prif Weinidog.
26. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn atal y Prif Weinidog rhag ailbenodi unigolyn i'r CPG nac yn atal cynrychiolwyr rhag gwasanaethu am gyfnodau olynol.
27. Mae'r adran yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i'r Prif Weinidog lenwi unrhyw swydd wag ar gyfer cynrychiolydd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Bydd y ddarpariaeth hon yn sicrhau yr amherir cyn lleied ag y bo modd ar waith yr CPG ac yn sicrhau, cyn belled ag y bo'n bosibl, y cynhelir nifer cyfartal o gynrychiolwyr cyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr.

Adran 7 - Cyfarfodydd, gweithdrefnau a chymorth gweinyddol

28. Mae'r adran hon yn ymdrin â gweithrediad yr CPG. Mae'n pennu gweithdrefnau penodol - pa mor aml y mae rhaid cynnal cyfarfodydd, mai'r Prif Weinidog fydd yn cadeirio'r CPG pan fo hynny'n bosibl, a threfniadau pan na fo hyn yn bosibl. Mewn amgylchiadau pan na fydd y Prif Weinidog yn cadeirio'r CPG, un arall o Weinidogion neu Ddirprwy Weinidogion Cymru a enwebwyd gan y Prif Weinidog fydd yn cadeirio'r CPG.
29. Mae'n ei gwneud yn ofynnol hefyd i Weinidogion Cymru bennu a chyhoeddi pob gweithdrefn arall y mae'r CPG i'w dilyn, ynghyd â'r cworwm ar gyfer cyfarfodydd yr CPG, o fewn chwe mis i'r dyddiad y daw adran 7(4) i rym. Bydd cyhoeddi gweithdrefnau'r CPG yn sicrhau cymaint o dryloywder â phosibl. Caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl ymgynghori â'r CPG, ddiwygio unrhyw un neu ragor o'r gweithdrefnau y maent wedi eu pennu a rhaid cyhoeddi unrhyw ddiwygiadau.

20. The First Minister must have regard to any nominations made when appointing employer representatives. This will ensure that a wide range of organisations in both the private and public sectors can influence the appointment of employer representatives to the SPC.
21. Section 5(2) provides that before appointing worker representatives, the First Minister must seek nominations from Wales TUC Cymru.
22. The First Minister may only appoint worker representatives who have been nominated by Wales TUC Cymru. This will ensure that worker representatives are genuinely representative of the collective experience of the workforce.
23. However, the First Minister is not obliged to appoint all or any individual nominated by Wales TUC Cymru to be a worker representative. Therefore, the First Minister could decide not to appoint one or more Wales TUC Cymru nominees and ask for others to be nominated.
24. The intention is create a diverse group by providing for a wide range of employers and workers to be represented on the SPC.

Section 6 - Duration of appointments

25. This section provides that employer or worker representatives are appointed for three years unless either the First Minister terminates their appointment or they resign by notifying the First Minister.
26. The legislation does not prevent the First Minister re-appointing an individual to the SPC or representatives serving consecutive terms.
27. The section also requires that the First Minister must fill any representative vacancy as soon as reasonably practicable. This provision will minimise disruption to the work of the SPC and ensure that, as far as possible, numerical parity is maintained between employer and worker representatives.

Section 7- Meetings, procedures and administrative support

28. This section deals with the operation of the SPC. It specifies certain procedures – the frequency of meetings, the chairing of the SPC by the First Minister where possible and arrangements where this is not possible. In circumstances where the SPC is not to be chaired by the First Minister, the SPC will be chaired by another Welsh Minister or Deputy Minister nominated by the First Minister.
29. It also requires that the Welsh Ministers specify and publish all other procedures to be followed by the SPC, together with the quorum for SPC meetings, within six months of section 7(4) coming into force. The publishing of the SPC’s procedures will ensure the greatest possible transparency. The Welsh Ministers may, having consulted with the SPC, amend any of the procedures they have specified and any amendments must be published.

30. Mae'r adran hefyd yn pennu materion y mae rhaid i'r gweithdrefnau sydd i'w cyhoeddi gan Weinidogion Cymru ymdrin â hwy ac yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu cymorth gweinyddol i'r CPG.
31. Y nod yw darparu ar gyfer fframwaith sylfaenol o weithdrefnau heb fod yn rhagnodol i'r graddau bod hynny'n cyfyngu ar hyblygrwydd gwaith yr CPG.

Adran 8 - Is-grwpiau

32. Mae adran 8 yn darparu pŵer i'r CPG i greu is-grwpiau er mwyn cyflawni ei swyddogaethau neu er mwyn ei gynorthwyo i wneud hynny. Rhaid i aelod o'r CPG gadeirio pob is-grŵp ond caiff is-grwpiau gynnwys aelodau o'r CPG ac unigolion eraill fel aelodau. Ni chaiff is-grŵp ond arfer swyddogaethau neu agweddau ar swyddogaethau a ddirprwywyd iddo gan yr CPG. Nid oes terfyn ar nifer yr is-grwpiau y caiff yr CPG eu creu.
33. Bydd y posibilrwydd o gynnwys cynrychiolwyr nad ydynt yn aelodau o'r CPG fel aelodau o is-grwpiau yn galluogi is-grwpiau i ddefnyddio'r ystod fwyaf bosibl o arbenigedd a gwybodaeth. Ymhlith pethau eraill, gallai'r CPG ddefnyddio is-grwpiau i sicrhau bod ei swyddogaethau'n cael eu cyflawni mewn modd mwy effeithlon, i ddarparu cyngor i Weinidogion Cymru ar fater penodol neu i sicrhau y gellir cyflawni ei swyddogaethau yn ystod y cyfnodau rhwng cyfarfodydd yr CPG llawn.
34. Er na chaiff is-grŵp ond arfer y swyddogaethau hynny a ddirprwywyd iddo gan yr CPG, nid oes unrhyw gyfyngiad ar ba rai o swyddogaethau'r CPG y gellir eu dirprwyo. O ganlyniad, caiff is-grŵp o'r CPG lunio gwybodaeth neu gyngor i Weinidogion Cymru yn yr un modd ag y mae'r CPG ei hun yn gwneud hynny (cyn belled ag y bo'r swyddogaethau perthnasol wedi eu dirprwyo'n briodol).

Adran 9 - Is-grŵp caffael cyhoeddus

35. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r CPG gymryd pob cam rhesymol i sefydlu is-grŵp penodol sy'n ymwneud â chaffael cyhoeddus, o fewn chwe mis i'r dyddiad y daw adran 9(1) i rym. Yn ogystal â hynny, mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru bennu a chyhoeddi'r cworwm ar gyfer cyfarfodydd yr is-grŵp caffael cyhoeddus, llunio canllawiau y mae rhaid i'r CPG roi sylw iddynt wrth benodi aelodau gan gynnwys canllawiau at ddiben sicrhau aelodaeth sydd â chynrychiolaeth briodol a'r gweithdrefnau i'w dilyn yn ystod cyfarfodydd.
36. Mae'r adran hefyd yn nodi materion penodol y mae rhaid i'r gweithdrefnau sydd i'w cyhoeddi gan Weinidogion Cymru ymdrin â hwy. Mae'r rhain yr un fath â'r rheini a gwmpesir yn y gweithdrefnau sydd wedi eu pennu a'u cyhoeddi mewn perthynas â'r CPG llawn. Gellir diwygio'r gweithdrefnau ar gyfer yr is-grŵp yn yr un modd â gweithdrefnau'r CPG. Yn yr un modd â'r CPG, y nod yw cydbwysu cysondeb â hyblygrwydd.
37. Yn yr un modd ag is-grwpiau eraill, caiff yr is-grŵp caffael cyhoeddus gynnwys aelodau o'r CPG ac unigolion eraill, ond rhaid i aelod o'r CPG ei gadeirio.

30. The section also specifies matters which the procedures to be published by the Welsh Ministers must deal with and requires the Welsh Ministers to provide administrative support to the SPC.
31. The intention is to provide for a basic framework of procedures without being so prescriptive as to impair the flexibility of the SPC's work.

Section 8 – Subgroups

32. Section 8 provides the SPC with the power to create subgroups to carry out its functions or assist it in doing so. Each subgroup must be chaired by a member of the SPC but may include both SPC members and other individuals as members. A subgroup may only exercise functions or aspects of functions that have been delegated to it by the SPC. There is no limit to the number of subgroups the SPC may create.
33. The possibility of including non-SPC representatives as members of subgroups will allow subgroups to draw on the maximum possible range of expertise and knowledge. Among other things, subgroups could be used by the SPC to ensure its functions are carried out more efficiently, to provide advice to the Welsh Ministers on a discreet issue or to ensure that its functions can be carried out in the periods between meetings of the full SPC.
34. Although a subgroup will only be able to exercise those functions delegated to it by the SPC, there is no restriction on which functions of the SPC can be delegated. As a result, SPC subgroups may produce information or advice to the Welsh Ministers in much the same way as the SPC itself (provided the relevant functions have been properly delegated).

Section 9 – Public procurement subgroup

35. This section requires the SPC to take all reasonable steps to establish a specific subgroup concerned with public procurement within six months of section 9(1) coming into force. It further requires that the Welsh Ministers specify and publish the quorum for the public procurement subgroup meetings, produce guidance to which the SPC must have regard when appointing members including guidance for the purpose of ensuring its membership is appropriately representative and the procedures to be followed during meetings.
36. The section also sets out specific matters which the procedures to be published by the Welsh Ministers must deal with, these are the same as those covered in the procedures which are specified and published in relation to the full SPC. The procedures for the subgroup can be revised in the same way as SPC procedures. The intention, as with the SPC, is to balance consistency with flexibility.
37. As with other subgroups, the members of the public procurement subgroup may consist of both members from the SPC and other individuals but must be chaired by a member of the SPC.

Adran 10 – Darparu gwybodaeth a chyngor i'r CPG gan yr is-grŵp caffael cyhoeddus

38. Mae'r adran hon yn nodi swyddogaethau'r is-grŵp caffael cyhoeddus, sef darparu gwybodaeth neu gyngor i'r CPG ynghylch y swyddogaethau a roddir i awdurdodau contractio a Gweinidogion Cymru o dan y dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol a nodir yn Rhan 3 o'r Ddeddf. Os yw'r CPG yn cael cais am wybodaeth neu gyngor gan Weinidogion Cymru ynghylch materion o'r fath, rhaid i'r CPG geisio'r wybodaeth neu'r cyngor oddi wrth yr is-grŵp caffael cyhoeddus a'i darparu neu ei ddarparu i Weinidogion Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.
39. Yn ogystal, mae'r adran hon yn darparu y caiff yr CPG ddiwygio'r wybodaeth a'r cyngor cyn ei hanfon neu ei anfon at Weinidogion Cymru.
40. Pan fo Gweinidogion Cymru yn ymgynghori ag is-grŵp yr CPG o dan adrannau 30 neu 36 o'r Ddeddf, rhaid i'r is-grŵp caffael cyhoeddus ddarparu gwybodaeth a chyngor y mae'n barnu eu bod yn briodol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.
41. Caiff Gweinidogion Cymru ymgynghori'n uniongyrchol â'r is-grŵp caffael cyhoeddus o dan adrannau 30(2)(d) neu 36(2)(d) (hynny yw, mewn perthynas â hysbysiadau a ddarperir gan awdurdodau contractio mewn cysylltiad â chymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol sydd wedi dod i law o dan adran 29 neu â chymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol sydd wedi dod i law o dan adran 35), ac yn yr achos hwnnw, rhaid i'r is-grŵp caffael cyhoeddus ddarparu'r wybodaeth neu'r cyngor cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Adrannau 11 ac 12 – Cyfarfod o bell a threuliau

42. Mae adran 11 yn caniatáu i'r CPG neu is-grŵp o'r CPG gynnal cyfarfodydd o bell, er enghraifft drwy'r rhyngwrwyd neu dros y ffôn. Bydd y darpariaethau hyn yn cynyddu hyblygrwyd yr CPG ac yn ei alluogi i gyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol.
43. Mae adran 12 yn galluogi Gweinidogion Cymru i dalu treuliau cynrychiolwyr cyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr yr CPG yn ogystal â threuliau aelodau o is-grwpiau. Byddai taliadau o'r fath yn ddarostyngedig i unrhyw bolisiau neu weithdrefnau perthnasol a roddwyd yn eu lle gan Weinidogion Cymru.

Adran 13 – Pwerau atodol

44. Mae'r adran hon yn darparu pwerau atodol i'r CPG. Mae'r rhain yn arferadwy mewn perthynas â'i swyddogaethau ei hun neu â swyddogaethau is-grŵp, fel ei gilydd.

Section 10 - Provision of information and advice to the SPC by public procurement subgroup

38. This section sets out the functions of the public procurement subgroup which are to provide information or advice to the SPC about the functions placed on contracting authorities and the Welsh Ministers under the socially responsible procurement duties set out in Part 3 of the Act. If the Welsh Ministers request information or advice from the SPC about such matters, the SPC must seek this from the public procurement subgroup and provide it to the Welsh Ministers as soon as reasonably practicable.
39. In addition, this section provides for the revision of information and advice by the SPC, before it is sent to the Welsh Ministers.
40. Where the Welsh Ministers consult the SPC subgroup under sections 30 or 36 of the Act, the public procurement subgroup must provide information and advice that it considers appropriate as soon as reasonably practicable.
41. The Welsh Ministers may consult directly with the public procurement subgroup under sections 30(2)(d) or 36(2)(d) (that is in relation to notifications provided by contracting authorities in connection with social public works clauses received under section 29 or social public workforce clauses received under section 35), in which event the public procurement subgroup must provide the information or advice as soon as reasonably practicable.

Section 11 & 12 – Meeting remotely and expenses

42. Section 11 allows the SPC or an SPC subgroup to hold meetings remotely, for example via the internet or telephone. These provisions will increase the flexibility of the SPC and enable it to carry out its functions effectively.
43. Section 12 enables the Welsh Ministers to meet the expenses of SPC employer and worker representatives as well as members of subgroups. Such payments would be subject to any relevant policies or procedures put in place by the Welsh Ministers.

Section 13 – Supplementary powers

44. This section provides the SPC with supplementary powers. These are exercisable both in relation to its own functions or the functions of a subgroup.

RHAN 2 - PARTNERIAETH GYMDEITHASOL A DATBLYGU CYNALIADWY CYFLWYNIAD

45. Mae adran 2 o Ddeddf 2015 yn diffinio "datblygu cynaliadwy" fel y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant a nodir yn adran 4 o'r Ddeddf honno. Mae adran 3 o Ddeddf 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ymgymryd â datblygu cynaliadwy. Wrth iddynt gyflawni'r ddyletswydd hon, rhaid iddynt osod a chyhoeddi amcanion llesiant. Amcanion yw'r rhain sydd wedi eu cynllunio i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl gan gorff at gyflawni pob un o'r nodau llesiant. Rhaid i gyrff cyhoeddus gymryd pob cam rhesymol, wrth arfer eu swyddogaethau, i gyflawni eu hamcanion.
46. Mae Rhan 2 yn cyflwyno dyletswydd partneriaeth gymdeithasol ar gyrff cyhoeddus a dyletswydd partneriaeth gymdeithasol ar wahân ond debyg ar Weinidogion Cymru. Mae'r dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol yn gymwys pan fo corff cyhoeddus yn ymgymryd â datblygu cynaliadwy yn unol â Deddf 2015, a bydd yn sicrhau, pan fo cyrff cyhoeddus yn gwneud penderfyniadau strategol allweddol wrth ymgymryd at wella llesiant yng Nghymru o dan Ddeddf 2015, eu bod yn gwneud hynny gan roi ystyriaeth lawn a phriodol i brofiad a gwybodaeth eu staff ac, yn achos Gweinidogion Cymru, i safbwyntiau partneriaid cymdeithasol yng Nghymru fel y'u cynrychiolir gan yr CPG.
47. Mae cyrff cyhoeddus yn ddarostyngedig i ofyniad i lunio adroddiad yn flynyddol a gofyniad i gyflwyno'r adroddiadau i'r CPG.
48. Mae Rhan 2 hefyd yn diwygio'r nodau llesiant drwy roi "gwaith teg" yn lle'r cyfeiriad at "gwaith addas" yn y disgrifiad o'r nod "Cymru lewyrchus".

Adran 15 - Trosolwg o'r Rhan a dehongli

49. Mae adran 15 yn darparu trosolwg o Ran 2 o'r Ddeddf.
50. Mae is-adrannau (2) a (3) yn diffinio "datblygu cynaliadwy" a "corff cyhoeddus" at ddibenion Rhan 2 drwy gyfeirio at y diffiniadau a nodir yn Neddf 2015. Y cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn adran 16 yw'r rheini a restrir yn adran 6 o Ddeddf 2015, ac eithrio Gweinidogion Cymru sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn adran 17.

Adran 16 - Dyletswydd partneriaeth gymdeithasol

51. Mae adran 16(1) yn gosod y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol ar bob corff cyhoeddus penodedig. Y ddyletswydd honno yw, i'r graddau y bo'n rhesymol, i 'geisio consensws neu gyfaddawd' gyda'i undebau llafur cydnabyddedig (neu pan nad oes undebau llafur cydnabyddedig o'r fath, gyda chynrychiolwyr eraill ei staff) wrth gymryd camau penodedig.
52. Mae'r ddyletswydd yn berthnasol pan fo corff cyhoeddus yn pennu ei amcanion llesiant o dan adran 3(2)(a) o Ddeddf 2015, a phan fo'n gwneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch y camau rhesymol y mae angen iddo eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny yn unol ag adran 3(2)(b) o Ddeddf 2015. Nid yw'n gymwys i'r penderfyniadau y mae corff cyhoeddus yn eu gwneud o ddydd i ddydd.

PART 2 – SOCIAL PARTNERSHIP AND SUSTAINABLE DEVELOPMENT

INTRODUCTION

45. Section 2 of the 2015 Act defines “sustainable development” as the process of improving the economic, social and environmental and cultural well-being of Wales by taking action, in accordance with the sustainable development principle, aimed at achieving the well-being goals set out in section 4 of that Act. Section 3 of the 2015 Act requires public bodies to carry out sustainable development. In fulfilling this duty, they must set and publish well-being objectives. These are objectives designed to maximize a body’s contribution to the achieving each of the well-being goals. Public bodies must take all reasonable steps, in exercising their functions, to meet their objectives.
46. Part 2 introduces a social partnership duty on public bodies and a separate but similar social partnership duty on the Welsh Ministers. The social partnership duties apply when a public body is carrying out sustainable development in accordance with the 2015 Act, and will ensure that when making key strategic decisions in pursuit of improved well-being in Wales under the 2015 Act, public bodies are fully and properly informed by the experience and knowledge of their staff and (for the Welsh Ministers) by the views of social partners in Wales as represented by the SPC.
47. Public bodies are subject to an annual reporting requirement and a requirement to submit the reports to the SPC.
48. Part 2 also amends the well-being goals by substituting the reference to “decent work” within the “A prosperous Wales” goal with “fair work”.

Section 15 - Overview of Part and interpretation

49. Section 15 provides an overview of Part 2 of the Act.
50. Subsections (2) and (3) define “sustainable development” and “public body” for the purposes of Part 2 by reference to the definitions set out in the 2015 Act. The public bodies subject to the social partnership duty in section 16 are those listed in section 6 of the 2015 Act, with the exception of Welsh Ministers who are subject to the social partnership duty in section 17.

Section 16 - Social partnership duty

51. Section 16(1) imposes the social partnership duty on each specified public body. That duty is, in so far as is reasonable, to ‘seek consensus or compromise’ with its recognised trade unions (or where there is none such with other representatives of its staff) when taking specified actions.
52. The duty applies when a public body is setting its well-being objectives under section 3(2)(a) of the 2015 Act and when it is taking decisions of a strategic nature about the reasonable steps it needs to take to meet those objectives in accordance with section 3(2)(b) of the 2015 Act. It does not apply to the day- to-day decisions of a public body.

53. Mae adran 16(2) yn nodi nifer o ofynion gweithdrefnol penodol sy'n ymwneud â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol, y mae rhaid i gorff cyhoeddus gydymffurfio â hwy wrth 'geisio consensws neu gyfaddawd'. Bwriedir i'r gofynion gweithdrefnol a nodir sicrhau bod undebau llafur neu gynrychiolwyr eraill i'r staff mewn cyrff cyhoeddus yn cael eu cynnwys yn llawn ac yn briodol yn y gwaith o osod amcanion neu wrth wneud penderfyniadau strategol eraill mewn perthynas â datblygu cynaliadwy. Y ddyletswydd i rannu gwybodaeth ddigonol ac ymgynghori ar sail hynny yng nghyfnod ffurfiannol y broses, ac i ganiatáu digon o amser fel y gall undebau llafur neu gynrychiolwyr staff eraill ystyried cynigion, yw'r lleiaf a ddisgwylir gan broses ymgysylltu wirioneddol. Bydd y gofynion hyn yn hyrwyddo dull mwy cyson a chydweithredol o wneud penderfyniadau strategol gan gyrff cyhoeddus a fydd, yn ei dro, yn sicrhau bod amcanion a osodir gan gyrff cyhoeddus, a phenderfyniadau allweddol a wneir ganddynt, yn rhoi sylw priodol i safbwyntiau, gwybodaeth a phrofiadau'r gweithlu.

Adran 17 - Dyletswydd partneriaeth gymdeithasol: Gweinidogion Cymru

54. Mae adran 17(1) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r CPG pan fônt yn gwneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch y camau rhesymol y maent yn eu cymryd i gyflawni eu hamcanion llesiant yn unol ag adran 3(2)(b) o Ddeddf 2015. Nid yw'n gymwys i'r penderfyniadau y mae Gweinidogion Cymru yn eu gwneud o ddydd i ddydd.

Adran 18 - Adroddiadau partneriaeth gymdeithasol

55. Mae adran 18 yn darparu bod rhaid i gorff cyhoeddus lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol a'i gyflwyno i'r CPG. Rhaid cytuno ar yr adroddiad gydag undebau llafur cydnabyddedig y corff cyhoeddus neu (pan nad oes undeb llafur cydnabyddedig) gynrychiolwyr eraill ei staff; neu gynnwys datganiad ynddo yn esbonio pam na chytunwyd arno.

Adran 19 - Adroddiadau partneriaeth gymdeithasol: Gweinidogion Cymru

56. Mae adran 19 yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol. Rhaid ei gyflwyno i'r CPG a'i osod gerbron y Senedd. Rhaid cytuno ar yr adroddiad gyda'r CPG neu gynnwys datganiad ynddo yn esbonio pam na chytunwyd arno.

Adran 20 - Gwaith Teg

57. Mae adran 20 yn diwygio'r disgrifiad o nod llesiant "Cymru lewyrchus" yn adran 4 o Ddeddf 2015 drwy roi "waith teg" yn lle "waith addas". Bydd y diwygiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried gwaith teg wrth osod amcanion sydd wedi eu cynllunio i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl ganddynt tuag at gyflawni nod llesiant "Cymru lewyrchus", ac wrth gymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.

RHAN 3 - CAFFAEL CYHOEDDUS CYMDEITHASOL GYFRIFOL

PENNOD 1

58. Mae Pennod 1 yn rhoi diffiniadau o "contract cyhoeddus", "awdurdod contractio" a "caffael cyhoeddus". Mae hefyd yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio ystyr awdurdod contractio.

53. Section 16(2) sets out a number of specific procedural requirements relating to the social partnership duty, which a public body must comply with when ‘seeking consensus or compromise’. The procedural requirements set out are intended to ensure that trade unions or other representatives of the staff of public bodies are fully and properly involved in setting objectives or making other strategic decisions relating to sustainable development. The duty to share and consult on sufficient information at a formative stage of the process and to allow sufficient time for proposals to be considered by trade unions or other staff representatives is the minimum expected of a process of genuine engagement. These requirements will promote a more consistent and collaborative approach to strategic decision-making by public bodies, in turn ensuring that objectives set and key decisions made by public bodies properly takes account of the views, knowledge and experiences of that body’s workforce.

Section 17 – Social Partnership duty: Welsh Ministers

54. Section 17(1) provides that the Welsh Ministers must consult with the SPC when they are taking decisions of a strategic nature about the reasonable steps to take to meet their well-being objectives in accordance with section 3(2)(b) of the 2015 Act. It does not apply to day- to-day decisions taken by the Welsh Ministers.

Section 18 – Social partnership reports

55. Section 18 provides that a public body must prepare and publish an annual report and submit it to the SPC. The report must be agreed with the public body’s recognised trade unions (or where there is no recognised trade union) other representatives of its staff; or contain a statement explaining why it was not agreed.

Section 19 – Social partnership reports: Welsh Ministers

56. Section 19 provides that the Welsh Ministers must prepare and publish an annual report. This must be submitted to the SPC and laid before the Senedd. The report must be agreed with the SPC or contain a statement explaining why it was not agreed.

Section 20 - Fair Work

57. Section 20 amends the description of the “A Prosperous Wales” well-being goal in section 4 of the 2015 Act by substituting “fair work” for “decent work”. This amendment will result in a requirement that public bodies consider fair work when setting and taking action to meet objectives designed to maximise their contribution to achieving the “A prosperous Wales” well-being goal.

PART 3 – SOCIALLY RESPONSIBLE PUBLIC PROCUREMENT CHAPTER 1

58. Chapter 1 sets out definitions of a “public contract”, a “contracting authority” and “public procurement”. It also makes provision for the Welsh Ministers to make regulations to amend the meaning of a contracting authority.

59. Ceir rhestr o awdurdodau contractio yn Atodlen 1.
60. At ddibenion y Rhan hon, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod contractio ym mhob sefyllfa ond dwy, pan fyddai'n anymarferol ystyried eu bod yn awdurdod contractio. O dan adrannau 29 a 35, rhaid i awdurdod contractio hysbysu Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â chynnwys cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol mewn contractau adeiladu mawr a chymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol wrth allanoli contractau. Yn eu tro, o dan adrannau 30 ac 36 mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu unrhyw hysbysiadu a ddarparwyd gan awdurdodau contractio ac yna gyhoeddi canlyniad yr adolygiad o'r hysbysiad. Yn ogystal, o dan adran 41, mae gan Weinidogion Cymru bŵer i ymchwilio i sut y mae awdurdod contractio yn cynnal caffael cyhoeddus.

PENNOD 2

Adran 24 - Dyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol

61. Mae'r adran hon yn nodi dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau contractio, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt geisio gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd drwy gynnal caffael cyhoeddus mewn ffordd gymdeithasol gyfrifol.
62. Mae is-adran (2) yn darparu bod hyn yn golygu bod rhaid iddynt weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant yn Neddf 2015.
63. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio bennu a chyhoeddi amcanion ("amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol") mewn perthynas â'u gweithgareddau caffael cyhoeddus sydd wedi eu cynllunio i sicrhau bod yr awdurdodau yn cyfrannu i'r eithaf at gyrraedd y nodau llesiant.
64. Yn ogystal, mae'r adran hon yn cyflwyno categori o gaffael cyhoeddus mewn cysylltiad â "contractau rhagnodedig". Gellir rhannu'r rhain yn dri chategori fel a ganlyn. Y categori cyntaf yw contractau adeiladu mawr, a ddiffinnir yn adran 25. Yr ail gategori yw contractau allanoli gwasanaethau, a ddiffinnir yn adran 26. Y trydydd categori yw unrhyw contract cyhoeddus arall a ddisgrifir mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru. Pan fo awdurdodau contractio yn cynnal caffaeliadau cyhoeddus mewn cysylltiad â chontractau rhagnodedig, mae is-adran (5) yn darparu bod rhaid iddynt gymryd pob cam rhesymol i gyflawni eu hamcanion caffael cymdeithasol gyfrifol.
65. Gosodir dau gyfyngiad gan is-adran (6) ar y ddyletswydd hon i "gymryd pob cam rhesymol" i gyflawni amcanion. Y cyntaf yw bod rhaid i unrhyw ddarpariaethau sydd wedi eu cynnwys mewn contract mewn perthynas â'r amcanion hyn fod yn gymesur o ran gwerth y contract. Yr ail yw bod rhaid sicrhau nad oes gwrthdaro rhwng y darpariaethau ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall sy'n ymwneud â chaffael.

Adran 25 - Dyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol: contractau adeiladu mawr

66. Mae'r adran hon yn cyflwyno camau penodol sy'n ofynnol mewn cysylltiad â "contract adeiladu mawr".

59. Contracting authorities are listed in Schedule 1.
60. The Welsh Ministers are a contracting authority for the purposes of this Part in all but two circumstances where it would be impractical for them to be considered a contracting authority. Under sections 29 and 35 a contracting authority must notify the Welsh Ministers in relation to the inclusion of social public works clauses in major constructions contracts and social public workforce clauses in outsourcing of contracts. In turn, under sections 30 and 36 the Welsh Ministers are required to review any notifications provided by contracting authorities and subsequently publish the outcome of the review into the notification. In addition, under section 41 the Welsh Ministers have a power to investigate how a contracting authority carries out public procurement.

CHAPTER 2

Section 24 - Socially responsible procurement duty

61. This section sets out an overarching duty on contracting authorities, requiring them to seek to improve the economic, social, environmental and cultural well-being of their areas by carrying out public procurement in a socially responsible way.
62. Subsection (2) provides that this means that they must take action, in accordance with the sustainable development principle, aimed at achieving the well-being goals in the 2015 Act.
63. Subsection (3) requires contracting authorities to set and publish objectives (“socially responsible procurement objectives”) in relation to their public procurement designed to maximise the authorities’ contributions towards the well-being goals.
64. This section also introduces a category of public procurement in respect of “prescribed contracts”. These fall into three categories, as follows. The first category is major construction contracts. These are defined in section 25. The second category is outsourcing services contracts. These are defined in section 26. The third category is any other public contract described in regulations by the Welsh Ministers. When carrying out public procurement in respect of prescribed contracts subsection (5) provides that contracting authorities must take all reasonable steps to meet their socially responsible procurement objectives.
65. Two constraints are placed by subsection (6) upon this duty to “take all reasonable steps” to meet objectives. The first is that any provisions included in a contract in relation to these objectives must be proportionate with respect to the contract value. The second is that the provisions must not conflict with any other relevant procurement-related legislation.

Section 25 - Socially responsible procurement duty: major construction contracts

66. This section introduces particular actions that are required in respect of a “major construction contract”.

67. Diffinnir contractau adeiladu mawr fel contractau gweithiau cyhoeddus neu gontractau gweithiau neu gontractau consesiwn gweithiau, sydd â chyfanswm gwerth amcangyfrifedig o dros £2 filiwn (yn cynnwys TAW). Mae hyn yn cynnwys cytundebau fframwaith a chontractau yr ymrwymir iddynt o ganlyniad i gytundeb fframwaith lle y mae'r gwerth amcangyfrifedig yn fwy na £2 filiwn. Mae contractau gweithiau cyhoeddus, contractau gweithiau a chontractau consesiwn gweithiau i gyd wedi eu diffinio yn adran 45(1).
68. Y prif gam gweithredu yw dyletswydd ar awdurdodau contractio i ystyried a ddylid cynnwys "cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol" (fel y'u cyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 27) mewn unrhyw gontract adeiladu mawr y maent yn bwriadu ei ddyfarnu, ac i gymryd camau rhesymol i sicrhau y gellir eu gweithredu. Bwriedir i'r cymalau sicrhau gwelliannau i lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, a restrir o dan categorïau a nodir yn adran 27.
69. Os penderfynir cynnwys y cymalau, rhaid i'r awdurdod contractio, wrth reoli'r contract wedi hynny, gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y rhwymedigaethau yn y cymalau yn cael eu gweithredu.

Adran 26 – Dyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol: contractau allanoli gwasanaethau

70. Diffinnir contractau allanoli gwasanaethau yn is-adran (2) fel naill ai contract y mae gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael ei ddarparu gan, neu a ddarparwyd yn flaenorol gan, awdurdod contractio yn cael ei drosglwyddo i sefydliad arall odano, neu y mae sefydliad arall yn cytuno i gyflawni unrhyw swyddogaeth arall sy'n cael ei gyflawni gan, neu a gyflawnwyd yn flaenorol gan, awdurdod contractio odano.
71. Mae'r adran hon yn nodi'r camau penodol y mae rhaid eu cymryd mewn perthynas â chontract allanoli gwasanaethau (mae'r rhain yn debyg i'r camau sy'n ofynnol mewn cysylltiad â chontractau adeiladu mawr).
72. Rhaid i'r awdurdod contractio ystyried cynnwys "cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol" mewn unrhyw gontract allanoli gwasanaethau perthnasol y mae'n bwriadu ei ddyfarnu. Mae adran 33 yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â chymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol.
73. Os cânt eu cynnwys, rhaid i'r awdurdod contractio, wrth reoli'r contract wedi hynny, gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y rhwymedigaethau yn y cymalau yn cael eu gweithredu.

67. Major construction contracts are defined as public works contracts or works contracts or works concession contracts with an estimated total value over £2m (inclusive of VAT). This includes both framework agreements and contracts entered into as a result of a framework agreement where the estimated value exceeds £2m. Public works contracts, works contracts and works concession contracts are all defined in section 45(1).
68. The main action is a duty on contracting authorities to consider whether “social public works clauses” (as published by the Welsh Ministers under section 27) should be included in any major construction contract they propose to award, and to take reasonable steps to ensure they can be implemented. The clauses are designed to bring about improvements to economic, social, environmental and cultural well-being listed under categories as set out in section 27.
69. If a decision is taken to include the clauses, in the subsequent management of the contract the contracting authority must take all reasonable steps to ensure that the obligations in the clauses are implemented.

Section 26 - Socially responsible procurement duty: outsourcing services contracts

70. Outsourcing services contracts are defined in subsection (2) as either a contract under which a public service that has been, or is currently, provided by a contracting authority is transferred to another organisation, or under which another organisation agrees to undertake any other function undertaken by, or previously undertaken by, a contracting authority.
71. This section sets out the particular actions that must be taken in relation to an outsourcing services contract (these are similar to the actions required in respect of major construction contracts).
72. The contracting authority must consider including “social public workforce clauses” in any relevant outsourcing services contract it proposes to award. Section 33 makes provision in connection with social public workforce clauses.
73. If they are included, in the subsequent management of the contract the contracting authority must take all reasonable steps to ensure that the obligations in the clauses are implemented.

Adran 27 – Cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol mewn contractau adeiladu mawr

74. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cymalau enghreifftiol ar gyfer contractau adeiladu mawr ("cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol") sydd wedi eu cynllunio i sicrhau gwelliannau i lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, a restrir o dan y categorïau a nodir yn y Tabl yn adran 27. I grynhoi, mae'r gwelliannau hyn yn cwmpasu: talu cyflenwyr yn brydlon; darparu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc a phobl o dan anfantais; sicrhau cydymffurfedd â deddfwriaeth mewn perthynas â hawliau cyflogaeth; darparu hyfforddiant priodol i weithwyr; darparu cyfleoedd i fusnesau bach a chanolig wrth is-gontractio; a materion amgylcheddol penodol. Gellir diwygio'r tabl yn y dyfodol drwy reoliadau.
75. Mae "cynnwys" cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol mewn contractau adeiladu mawr yn golygu cynnwys *pob un o'r* cymalau enghreifftiol, gan ymgorffori geiriad a fydd yn cael yr un effaith neu'r un effaith yn sylweddol â'r cymal contract enghreifftiol cyhoeddedig.

Adran 28 – Cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol mewn is-gontractau

76. Yn ogystal â chymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol yn cael eu gweithredu mewn contractau (gweler adran 25), mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y rhwymedigaethau'n cael eu gweithredu pan fo contractiwr yn ymrwymo i is-gontract.
77. Mae'r adran hon yn cynnig nifer o enghreifftiau o'r hyn y mae "camau rhesymol" yn ei olygu hefyd. I grynhoi, mae'r rhain yn cynnwys: sicrhau bod cymalau sy'n cael yr un effaith neu'r un effaith yn sylweddol yn cael eu cynnwys mewn is-gontractau, ac ym mhob contract dilynol yn y gadwyn gyflenwi; sicrhau y gellir gorfodi'r rhwymedigaethau sydd yn y cymalau; ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr gael cydsyniad yr awdurdod contractio cyn penodi is-gontractwyr fel y gall yr awdurdod sicrhau bod y cymalau wedi eu cynnwys; ei gwneud yn ofynnol i'r contractiwr hysbysu'r awdurdod os nad yw'n cynnwys y cymalau mewn is-gontractau; a'i gwneud yn ofynnol i gontractwyr fonitro gweithredu'r cymalau.

Adran 29 – Cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol: hysbysu Gweinidogion Cymru

78. Mae'n bosibl y bydd rhesymau dilys pam nad yw awdurdod contractio yn bwriadu cynnwys cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol mewn contractau adeiladu mawr. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod contractio hysbysu Gweinidogion Cymru os, mewn perthynas â chontract adeiladu mawr—
- nad yw'n bwriadu cynnwys y cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol, neu
 - er ei fod wedi cymryd camau rhesymol i wneud hynny, nad ydynt wedi eu cynnwys mewn contract.
79. Rhaid i awdurdod contractio hefyd hysbysu Gweinidogion Cymru os yw wedi methu â throsglwyddo'r rhwymedigaeth ofynnol drwy gadwyni cyflenwi drwy gyfrwng is-gontractau, neu os nad yw wedi rhoi proses ar waith i reoli eu gweithrediad.

Section 27 - Social public works clauses in major construction contracts

74. This section requires the Welsh Ministers to publish model clauses for major construction contracts (“social public works clauses”) designed to bring about improvements to economic, social, environmental and cultural well-being listed under the categories set out in the Table in section 27. In summary, these improvements cover: prompt payment for suppliers; providing employment opportunities to younger and disadvantaged people; ensuring compliance with legislation in relation to employment rights; providing appropriate training for workers; providing opportunities to SMEs when subcontracting; and certain environmental matters. The table can be amended in future through regulations.
75. “Including” social public works clauses in major construction contracts means including *all* of the model clauses, incorporating wording that will have the same or substantially the same effect as the published model contract clauses.

Section 28 - Social public works clauses in subcontracts

76. As well as taking all reasonable steps to ensure that the social public works clauses are implemented in contracts (see section 25) this section requires contracting authorities to take all reasonable steps to ensure that the obligations are implemented where a contractor enters into a subcontract.
77. This section also gives some examples of what is meant by “reasonable steps”. In summary these are: ensuring that clauses with the same or substantially the same effect are included in subcontracts, and throughout subsequent contracts in the supply chain; ensuring that obligations within the clauses can be enforced; requiring contractors to obtain the consent of the contracting authority before appointing subcontractors so that the authority can ensure that the clauses are included; requiring the contractor to inform the authority if it is not including the clauses in subcontracts; and requiring contractors to monitor the implementation of the clauses.

Section 29 - Social public works clauses: notifying the Welsh Ministers

78. There may be valid reasons why a contracting authority does not intend to include social public works clauses in major construction contracts. This section requires a contracting authority to notify the Welsh Ministers if, in relation to a major construction contract –
- a. it does not intend to include the social public works clauses, or
 - b. despite taking reasonable steps to include them, they are not contained in a contract.
79. A contracting authority must also inform the Welsh Ministers if it has failed to pass the required obligation through supply chains via subcontracts, or has not put a process in place to manage their implementation.

80. Rhaid gwneud hysbysiad cyn gynted ag y bo'n bosibl gan roi rhesymau'r awdurdod.

Adrannau 30 a 31 – Cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol: ymateb

Gweinidogion Cymru a chontractau Gweinidogion Cymru

81. Pan fo Gweinidogion Cymru yn cael hysbysiad gan awdurdod contractio o dan adran 29, mae'r adran hon yn nodi'r camau y mae'n ofynnol i'r Gweinidogion eu cymryd.
82. Pan fo Gweinidogion Cymru yn cael hysbysiad, mae'n ofynnol iddynt gyhoeddi crynodeb ohono o dan is-adran (1) a rhaid iddynt ystyried a ydynt yn fodlon ar y rhesymau a roddwyd yn yr hysbysiad. Wrth wneud hynny, cânt ymgynghori â'r awdurdod o dan is-adran (2) a chânt, drwy hysbysiad, ei gwneud yn ofynnol i awdurdod contractio ddarparu dogfennau neu wybodaeth arall (a rhaid iddynt wneud y ddau beth hyn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (gweler is-adran (7)), ac os digwydd hynny, rhaid iddo hefyd eu darparu neu ei darparu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd ymgynghori â'r is-grŵp caffael cyhoeddus.
83. Os yw Gweinidogion Cymru yn fodlon ar resymau'r awdurdod a nodir yn yr hysbysiad, rhaid iddynt gyhoeddi crynodeb o'r rhesymau pam eu bod yn fodlon. Os nad ydynt yn fodlon, cânt roi cyfarwyddyd i'r awdurdod contractio i gymryd pob cam rhesymol i gynnwys cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol yn y contract adeiladu mawr neu mewn is-contractau, ac i roi prosesau ar waith i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu. Rhaid iddynt gyhoeddi unrhyw gyfarwyddydau hefyd.
84. Mae is-adran (6) yn darparu os nad ydynt yn fodlon ond nad ydynt yn rhoi cyfarwyddydau, rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r CPG a rhaid iddynt gyhoeddi'r rhesymau pam nad ydynt yn fodlon a pham nad ydynt yn rhoi cyfarwyddyd.
85. Mae is-adran (9) yn darparu nad yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi unrhyw wybodaeth a fyddai'n esempt rhag cael ei datgelu o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
86. Mae adran 31 yn gwneud darpariaeth ar gyfer contractau a osodir gan Weinidogion Cymru. Rhaid iddynt gyhoeddi datganiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol os nad ydynt yn bwriadu cynnwys cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol mewn contract adeiladu mawr, gan gynnwys y ffaith eu bod wedi cymryd camau rhesymol i wneud hynny, os nad ydynt wedi eu cynnwys mewn contract, neu os nad oes proses yn ei lle i reoli eu gweithrediad, gan roi rhesymau.

Adran 32 – Y cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu

87. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod ymarfer ("y cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu") ynghylch materion cyflogaeth a phensiynau sy'n gysylltiedig â chontractau allanoli gwasanaethau. Mae hyn at ddiben gwella ansawdd gwasanaethau cyhoeddus neu swyddogaethau eraill a allanolir gan awdurdodau contractio. Mae'r "cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol" (gweler adran 33) yn cael eu cynnwys fel rhan o'r cod hwn.

80. A notification must be made as soon as possible giving the authority's reasons.

Sections 30 and 31 - Social public works clauses: Welsh Ministers' response and contracts

81. Where the Welsh Ministers receive a notification from a contracting authority under section 29 this section sets out the steps required of the Ministers.
82. Where the Welsh Ministers receive a notification, they are required under subsection (1) to publish a summary of it and they must consider whether they are satisfied with the reasons given in the notification. In doing so, they may under subsection (3) consult the authority and may, by notice, require documents or other information from a contracting authority (both of which they must do as soon as reasonably practicable (see subsection (7)), in the event of which that documentation or information must also be provided as soon as reasonably practicable. The Welsh Ministers may also consult with the public procurement subgroup.
83. In the event of being satisfied with the authority's reasons set out in the notification, the Welsh Ministers must publish a summary of their reasons for being satisfied. In the event of not being satisfied they may direct the contracting authority to take all reasonable steps to include social public works clauses in the major construction contract or in sub-contracts, and to put processes in place to ensure they are implemented. must publish any directions.
84. Subsection (6) provides that where they are not satisfied but do not issue directions, the Welsh Ministers must inform that SPC and must publish their reasons for not being satisfied and not issuing a direction.
85. Subsection (9) provides that the Welsh Ministers are not required to publish any information which would be exempt from disclosure under the Freedom of Information Act 2000.
86. Section 31 makes provision for contracts let by the Welsh Ministers. They must publish a statement as soon as reasonably practicable if they do not intend to include social public works clauses in a major construction contract, including their taking reasonable steps to include them, they are not contained in a contract, or there is no process in place to manage their implementation, giving reasons.

Section 32 - Public services outsourcing and workforce code

87. This section requires the Welsh Ministers to publish a code of practice (the "public services outsourcing and workforce code") about employment and pensions matters related to outsourcing services contracts. This is for the purpose of improving the quality of public services or other functions outsourced by contracting authorities. The "social public workforce clauses" (see section 33) are included as part of this Code.

88. Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi unrhyw ddiwygiad dilynol i'r cod hwn hefyd, a'i osod gerbron y Senedd. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol wrth ddatblygu'r cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu, neu wrth ei ddiwygio wedi hynny.

Adrannau 33 a 34 – Cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol mewn contractau allanoli gwasanaethau ac mewn is-gontractau

89. Rhaid i'r cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu a gyhoeddir o dan adran 32 gynnwys cymalau contract enghreifftiol ("cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol"), sydd wedi eu cynllunio i sicrhau y gall aelodau o staff a gyflogir i ddarparu gwasanaeth, os ydynt yn dymuno, drosglwyddo i'r cyflogwr newydd a fydd wedi ei gontractio i ddarparu'r gwasanaeth. Bydd y cymalau hyn yn sicrhau bod telerau ac amodau eu cyflogaeth a'u trefniadau pensiwn wedi eu diogelu hefyd.
90. Mae'r cymalau wedi eu cynllunio i sicrhau hefyd, os bydd y cyflogwr newydd yn recriwtio rhagor o aelodau o staff i ddarparu'r un gwasanaeth, fod yr aelodau newydd o staff gael eu cyflogi gyda thelerau ac amodau nad ydynt yn llai ffafriol, a threfniadau pensiwn sy'n rhesymol.
91. Mae adran 34 yn gymwys pan fo awdurdod contractio yn bwriadu cynnwys cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol mewn is-gontract allanoli gwasanaethau. Mae adran 34(2) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y rhwymedigaethau yn y cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol yn cael eu gweithredu mewn unrhyw is-gontract y mae'r contractiwr yn ymrwymo iddo gydag unrhyw weithredwr economaidd arall. Mae is-adran (3) yn nodi enghreifftiau o gamau rhesymol y gellir eu cymryd. Yn eu plith mae sicrhau bod cymalau sy'n cael yr un effaith neu'r un effaith yn sylweddol yn cael eu cynnwys mewn is-gontractau, ac ym mhob contract dilynol yn y gadwyn gyflenwi; sicrhau y gellir eu gorfodi; ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr gael cydsyniad yr awdurdod contractio cyn penodi is-gontractwyr fel y gall yr awdurdod sicrhau bod y cymalau wedi eu cynnwys; ei gwneud yn ofynnol i'r contractiwr hysbysu'r awdurdod os nad yw'n cynnwys y cymalau mewn is-gontractau; a'i gwneud yn ofynnol i gontractwyr fonitro gweithredu'r cymalau.

Adran 35- Cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol: hysbysu Gweinidogion Cymru

92. Mae adran 35(1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod contractio hysbysu Gweinidogion Cymru os nad yw wedi cynnwys, neu os nad yw'n bwriadu cynnwys, cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol yn y contract, gan gynnwys pan fo'r awdurdod wedi cymryd camau rhesymol i'w cynnwys, neu os nad oes proses ar waith i sicrhau bod rhwymedigaethau mewn cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol yn cael eu gweithredu pa un ai mewn contract neu mewn is-gontract.
93. O dan is-adran (2), rhaid darparu hysbysiad yr awdurdod contractio a'i resymau dros beidio â chynnwys cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol yn y contract cyn gynted ag y bo'n bosibl.

88. Any subsequent revision to this Code must also be published by the Welsh Ministers and laid before the Senedd. The Welsh Ministers must consult with relevant stakeholders in developing or subsequently revising the public service outsourcing and workforce code.

Sections 33 and 34 - Social public workforce clauses in outsourcing services contracts and in subcontracts

89. The public services outsourcing and workforce code published under section 32 must include model contract clauses (“social public workforce clauses”), designed to ensure that members of staff employed to deliver a service can, if they wish, be transferred to the new employer that will be contracted to deliver the service. These clauses will also ensure that their terms and conditions of employment and pensions arrangements are protected.
90. The clauses are also designed to ensure that in the event of the new employer recruiting further members of staff to deliver the same service, the new members of staff are employed with terms and conditions that are no less favourable, and with pensions arrangements that are reasonable.
91. Section 34 applies where a contracting authority intends to include social public workforce clauses into a outsourcing services subcontract. Section 34(2) requires contracting authorities to take all reasonable steps to ensure that the obligations in the social public workforce clauses are implemented into any subcontract which the contractor enters into with any other economic operator. Subsection (3) sets out examples of reasonable steps which may be taken. They include ensuring that clauses with the same or substantially the same effect are included in subcontracts, and throughout subsequent contracts in the supply chain; ensuring that they can be enforced; requiring contractors to obtain the consent of the contracting authority before appointing sub-contractors so that the authority can ensure that the clauses are included; requiring the contractor to inform the authority if it is not including the clauses in subcontracts; and requiring contractors to monitor the implementation of the clauses.

Section 35 - Social public workforce clauses: notifying the Welsh Ministers

92. Section 35(1) requires the contracting authority to notify the Welsh Ministers if it has not included, or does not intend to include, social public workforce clauses in the contract, including where the authority has taken reasonable steps to include them, or there is no process in place for ensuring that obligations in social public workforce clauses are implemented whether in a contract or subcontract.
93. Under subsection (2), the contracting authority’s notification and reasons for not including social public workforce clauses in the contract must be provided as soon as possible.

Adrannau 36 a 37 - Cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol: ymateb

Gweinidogion Cymru a chontractau Gweinidogion Cymru

94. Pan fo Gweinidogion Cymru yn cael hysbysiad, mae'n ofynnol iddynt gyhoeddi crynodeb ohono o dan is-adran (1) a rhaid iddynt ystyried a ydynt yn fodlon ar y rhesymau a roddwyd yn yr hysbysiad. Wrth wneud hynny, cânt ymgynghori â'r awdurdod o dan is-adran (2) a chânt, drwy hysbysiad, ei gwneud yn ofynnol i awdurdod contractio ddarparu dogfennau neu wybodaeth arall (a rhaid iddynt wneud y ddau beth hyn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (gweler is-adran (7)), ac os digwydd hynny, rhaid iddo hefyd eu darparu neu ei darparu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd ymgynghori â'r is-grŵp caffael cyhoeddus.
95. Os yw Gweinidogion Cymru yn fodlon ar resymau'r awdurdod a nodir yn yr hysbysiad, rhaid iddynt gyhoeddi crynodeb o'r rhesymau pam eu bod yn fodlon. Os nad ydynt yn fodlon, cânt roi cyfarwyddyd i'r awdurdod contractio i gymryd pob cam rhesymol i gynnwys cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol yn y contract allanoli gwasanaethau neu mewn is-gontractau, ac i roi prosesau ar waith i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu. Rhaid iddynt gyhoeddi unrhyw gyfarwyddydau hefyd.
96. Mae is-adran (6) yn darparu os nad ydynt yn fodlon ond nad ydynt yn rhoi cyfarwyddydau, rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r CPG a rhaid iddynt gyhoeddi'r rhesymau pam nad ydynt yn fodlon a pham nad ydynt yn rhoi cyfarwyddyd.
97. Mae is-adran (9) yn darparu nad yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi unrhyw wybodaeth a fyddai'n esempt rhag cael ei datgelu o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
98. Mae adran 37 yn gwneud darpariaeth ar gyfer contractau a osodir gan Weinidogion Cymru. Rhaid iddynt gyhoeddi datganiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol os nad ydynt yn bwriadu cynnwys cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol mewn contract allanoli, gan gynnwys y ffaith eu bod wedi cymryd camau rhesymol i wneud hynny, os nad ydynt wedi eu cynnwys mewn contract, neu os nad oes proses yn ei lle i reoli eu gweithrediad, gan roi rhesymau.
99. Yn achos contractau a osodir gan Weinidogion Cymru, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol os nad ydynt yn bwriadu cynnwys cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol mewn contract allanoli gwasanaethau, er eu bod wedi cymryd camau rhesymol i wneud hynny, os nad ydynt wedi eu cynnwys mewn contract, neu os nad oes proses yn ei lle i reoli eu gweithrediad, gan roi rhesymau.

Sections 36 and 37 - Social public workforce clauses: Welsh Ministers' response and contracts

94. Where the Welsh Ministers receive a notification, they are required under subsection (1) to publish a summary of it and they must consider whether they are satisfied with the reasons given in the notification. In doing so, they may under subsection (2) consult the authority and may, by notice, require documents or other information from a contracting authority (both of which they must do as soon as reasonably practicable (see subsection (7)), in the event of which that documentation or information must also be provided as soon as reasonably practicable. The Welsh Ministers may also consult with the public procurement subgroup.
95. In the event of being satisfied with the authority's reasons set out in the notification, the Welsh Ministers must publish a summary of their reasons for being satisfied. In the event of not being satisfied they may direct the contracting authority to take all reasonable steps to include social public workforce clauses in the outsourcing services contract or in sub-contracts, and to put processes in place to ensure they are implemented. They must publish any directions.
96. Subsection (6) provides that where they are not satisfied but do not issue directions, the Welsh Ministers must inform that SPC and must publish their reasons for not being satisfied and not issuing a direction.
97. Subsection (9) provides that the Welsh Ministers are not required to publish any information which would be exempt from disclosure under the Freedom of Information Act 2000.
98. Section 37 makes provision for contracts let by the Welsh Ministers. They must publish a statement as soon as reasonably practicable if they do not intend to include social public workforce clauses in an outsourcing contract, including their taking reasonable steps to include them, they are not contained in a contract, or there is no process in place to manage their implementation, giving reasons.
99. For contracts let by the Welsh Ministers, a statement must be published as soon as reasonably practicable by the Welsh Ministers if they do not intend to include social public workforce clauses in an outsourcing services contract, despite their taking reasonable steps to include them, they are not contained in a contract, or there is no process in place to manage their implementation, giving reasons.

Adran 38 – Strategaeth gaffael

100. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio lunio a chyhoeddi "strategaeth gaffael" sy'n nodi sut y mae'r awdurdod yn bwriadu cynnal caffael cyhoeddus mewn ffordd gymdeithasol gyfrifol, sut y mae'n bwriadu cymryd camau rhesymol i gyflawni'r amcanion y mae wedi eu gosod (gweler adran 24) a sut y mae'n bwriadu gwneud taliadau yn brydlon. Caniateir nodi materion eraill sydd i'w cynnwys mewn strategaethau caffael mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion o bryd i'w gilydd.
101. O dan is-adran (4), rhaid adolygu'r strategaethau hyn bob blwyddyn a rhaid cyhoeddi unrhyw ddiwygiadau dilynol. Caniateir i ddau awdurdod neu ragor gyhoeddi strategaethau ar y cyd.

PENNOD 3 – ADRODD AC ATEBOLRWYDD

Adran 39 – Adroddiadau caffael cymdeithasol gyfrifol blynyddol

102. Mae adran 39(1) yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau contractio gyhoeddi adroddiad caffael cymdeithasol gyfrifol blynyddol cyn gynted ag y bo'n bosibl ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.
103. Mae is-adran (2) yn darparu bod rhaid i'r adroddiadau hyn gynnwys crynodeb o'r caffaeliadau rhagnodedig a arweiniodd at ddyfarnu unrhyw gontract yn ystod y flwyddyn ariannol honno, adolygiad o'r camau y mae'r awdurdod wedi eu cymryd i gyflawni ei amcanion, pa gamau pellach (os oes rhai) a allai gael eu cymryd mewn caffaeliadau yn y dyfodol i gyflawni'r amcanion hynny a chrynodeb o gaffaeliadau arfaethedig ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol, ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.
104. Mae is-adran (2)(e) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru nodi mewn rheoliadau, wybodaeth y dylai awdurdodau contractio ei chynnwys yn eu hadroddiadau blynyddol. Mae is-adran (3) yn pennu bod rhaid i hynny gynnwys gwybodaeth ynghylch i ba raddau y mae eu gweithgarwch caffael cyhoeddus yn cyflawni eu hamcanion caffael cymdeithasol gyfrifol drwy, er enghraifft, gyfrannu at yr economi leol ac ystyried materion amgylcheddol a materion cymdeithasol eraill, megis hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.

Adran 40 – Cofrestr gontractau

105. Mae adran 40(1) yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod contractio gynnal a chyhoeddi cofrestr gontractau. Mae is-adran (2) yn darparu bod cofrestr yn cynnwys gwybodaeth am 'gontractau cofrestradwy' sydd o ddisgrifiad a ragnodwyd gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau. Mae is-adran (3) yn nodi'r wybodaeth y mae'n ofynnol ei chofnodi mewn cysylltiad â phob contract cofrestradwy: ei enw, dyddiad dyfarnu'r contract, y gwerth amcangyfrifedig, cyfeiriad prif fan busnes y contractiwr, y pwnc, y dyddiad cychwyn, y dyddiad terfynu ac unrhyw gyfnod y gellir estyn y contract, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth arall a nodir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

Section 38 - Procurement strategy

100. This section requires contracting authorities to prepare and publish a “procurement strategy” setting out how the authority intends to carry out public procurement in a socially responsible way, how it intends to take reasonable steps to meet the objectives that it has set (see section 24) and how it intends to make payments promptly. Other matters to be included in procurement strategies may be set out in regulations made from time to time by the Welsh Ministers.
101. Under subsection (4), these strategies must be reviewed each year and any subsequent revisions must be published. Joint strategies may be published by two or more authorities.

CHAPTER 3 - REPORTING AND ACCOUNTABILITY

Section 39 - Annual socially responsible procurement reports

102. Section 39(1) sets out a requirement on contracting authorities to publish an annual socially responsible procurement report as soon as possible at the end of each financial year.
103. Subsection (2) provides that these reports must include a summary of the prescribed procurements that led to the award of any contract within that financial year, a review of the steps that the authority has taken to meet its objectives, what (if any) further steps could be taken in future procurements to meet those objectives and a summary of procurement that is planned for the following two years, along with any other information as may be specified in regulations made by the Welsh Ministers.
104. Subsection (2)(e) requires the Welsh Ministers to set out in regulations information that contracting authorities should include in their annual reports, subsection (3) specifies that must include information on the extent to which their public procurement activities are meeting their socially responsible procurement objectives by, for example contributing to the local economy, taking environmental and other social considerations - such as promoting and facilitating use of the Welsh language - into account.

Section 40 - Contracts register

105. Section 40(1) requires each contracting authority to maintain and publish a contracts register. Subsection (2) provides that a register contains information on ‘registrable contracts’ which are of a description prescribed by the Welsh Ministers in regulations. Subsection (3) sets out the information required to be captured in respect of each registrable contract: its name, date of award, estimated value, the address of the contractor’s principal place of business, subject matter, start date, end date and any period for which it may be extended, as well as any other information which may be set out within regulations made by the Welsh Ministers.

106. Mae is-adran (4) yn darparu nad yw'n ofynnol i awdurdodau contractio gofrestru unrhyw wybodaeth y maent o'r farn y byddai'n rhwystro gorfodi'r gyfraith neu na fyddai er budd y cyhoedd, y byddai'n rhagfarnu buddiannau masnachol person neu yn rhagfarnu cystadleuaeth rhwng gweithredwyr economaidd. O dan is-adran (5), ni cheir ond dileu'r wybodaeth am unrhyw gontract o'r contract ar ôl i'r contract gael ei derfynu neu ar ôl iddo ddod i ben.

Adran 41 – Ymchwiliadau caffael

107. Mae'r adran hon yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru i ymchwilio i sut y mae awdurdod contractio yn cynnal caffael cyhoeddus. Gallai hyn fod mewn perthynas â gwaith caffael penodol neu weithgarwch caffael yn fwy cyffredinol.
108. O dan is-adran (4), gall fod yn ofynnol gan Weinidogion Cymru i awdurdodau contractio ddarparu dogfennau neu wybodaeth arall at ddibenion ymchwiliad. Mae is-adran (5) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, ar ddiwedd unrhyw ymchwiliad, wneud argymhellion i'r awdurdod contractio, cyhoeddi adroddiad a/neu osod copi o unrhyw adroddiad gerbron y Senedd.

Adran 42 – Adroddiad blynyddol Gweinidogion Cymru ar gaffael cyhoeddus

109. Mae adran 42 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru, a hynny cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd blwyddyn ariannol. Mae is-adran (2) yn darparu bod rhaid i'r adroddiad roi crynodeb o unrhyw ymchwiliadau a gynhelir o dan adran 41, a gwybodaeth a ddaw o adroddiadau blynyddol awdurdodau contractio. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r adroddiadau hyn a'u gosod gerbron y Senedd.
110. Mae Rhan 4 yn cynnwys darpariaethau ar weithdrefnau is-ddeddfwriaeth; yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru i wneud darpariaethau trosiannol, canlyniadol etc.; ac yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â chychwyn, dehongli, dod i rym etc.

Adran 43 – Canllawiau

111. Mae'r adran hon yn nodi manylion y canllawiau y caiff Gweinidogion Cymru eu dyroddi ynghylch Rhan 3 o'r Ddeddf ac y mae rhaid i awdurdodau contractio roi sylw i'r canllawiau hynny wrth gynnal caffael cymdeithasol gyfrifol. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r CPG ac unrhyw randdeiliaid eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol cyn dyroddi unrhyw ganllawiau o dan yr adran hon.

Adran 44 – Rheoliadau

112. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch sut y mae rheoliadau o dan Ran 3 o'r Ddeddf i'w gwneud. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ynghylch gweithdrefnau'r Senedd sy'n gymwys mewn perthynas â'r rheoliadau, a'r ddarpariaeth ategol (hynny yw, darpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed) y caniateir ei gwneud yn y rheoliadau hyn.

106. Subsection (4) provides that contracting authorities are not required to register any information which they consider would impede law enforcement or not be in the public interest, would prejudice the commercial interests of a person or competition between economic operators. Under subsection (5), the information about any contract may only be deleted from the contract after the contract has either been terminated or expired.

Section 41 - Procurement investigations

107. This section provides the Welsh Ministers with powers of investigation into how a contracting authority carries out public procurement. This could be in relation to a particular procurement or procurement activities more generally.
108. Under subsection (4) contracting authorities may be required by the Welsh Ministers to provide documents or other information for the purposes of an investigation. Subsection (5) provides that at the end of any investigation, the Welsh Ministers may make recommendations to the contracting authority, publish a report and/or lay a copy of any report before the Senedd.

Section 42 - Welsh Ministers' annual report on public procurement

109. Section 42 requires the Welsh Ministers to publish, as soon as reasonably practicable after the end of a financial year, a report about public procurement in Wales. Subsection (2) provides that the report must summarise any investigations carried out under section 41 and information drawn from contracting authorities' annual reports. Subsection (3) requires the Welsh Ministers to publish these reports and lay them before the Senedd.
110. Part 4 contains provisions on subordinate legislation procedures; provides powers for the Welsh Ministers to make transitional, consequential etc. provisions; and makes provision in respect of commencement, interpretation, coming into force etc.

Section 43 - Guidance

111. This section sets out details of the guidance that the Welsh Ministers may issue about Part 3 of the Act and to which contracting authorities must have regard when undertaking socially responsible procurement. Subsection (4) requires the Welsh Ministers to consult with the SPC and other stakeholders that they consider appropriate before issuing any guidance under this section.

Section 44 - Regulations

112. This section makes provision about how regulations under Part 3 of the Act are to be made. This includes provision about the procedures of the Senedd that apply in relation to the regulations, and the ancillary provision (that is, supplemental, incidental, consequential, transitional, transitory or saving provision) that may be made in these regulations.

Adran 45 – Dehongli Rhan 3

113. Mae'r adran hon yn diffinio termau penodol a ddefnyddir yn Rhan 3 o'r Ddeddf ac mae'n hunanesboniadol.

Adran 46 – Dehongli cyffredinol

114. Mae'r adran hon yn diffinio termau penodol a ddefnyddir yn y Ddeddf hon ac mae'n hunanesboniadol.

Adran 47 – Mân ddiwygiad i DLICD 2015

115. Mae'r adran hon yn gwneud mân ddiwygiad i adran 9 o DLICD 2015.

Adran 48 – Dod i rym

116. Mae is-adran (1) yn dwyn adran 48 o'r Ddeddf i rym drannoeth diwrnod y Cydsyniad Brenhinol.

117. Daw holl ddarpariaethau eraill y Ddeddf i rym drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru (is-adran (1)). Mae is-adran (2) yn caniatáu i orchymynion sy'n dwyn darpariaethau i rym bennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol ac mae is-adran (3) yn galluogi gorchymynion i wneud darpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol a darpariaeth arbed mewn cysylltiad â dwyn darpariaethau i rym.

Adran 49 – Enw byr

118. Mae'r adran hon yn darparu mai enw byr y Ddeddf yw Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023.

ATODLEN 1

119. Mae Atodlen 1 yn rhestru'r sefydliadau, y cyrff a'r deiliaid swydd sy'n awdurdodau contractio ac felly yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol yn Rhan 3 o'r Ddeddf.

ATODLEN 2

120. Mae Atodlen 2 yn darparu bod pob awdurdod contractio i adolygu amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol os yw'r nodau llesiant yn cael eu diwygio, y mae rhaid i awdurdodau contractio roi sylw iddynt wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan Ran 3 o'r Ddeddf. Mae hefyd yn galluogi awdurdodau contractio i adolygu eu hamcanion ar unrhyw adeg. Os yw awdurdod contractio yn diwygio'i amcanion, rhaid iddynt gael eu cyhoeddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

COFNOD Y TRAFODION YN SENEDD CYMRU

121. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy'r Senedd. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan y Senedd ar:

[Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus \(Cymru\) \(senedd.cymru\)](https://www.senedd.cymru)

Section 45 - Interpretation of Part 3

113. This section defines specific terms used in Part 3 of the Act and is self-explanatory.

Section 46 - General interpretation

114. This section defines specific terms used in this Act and is self-explanatory.

Section 47 - Minor amendment of the WFGA 2015

115. This section makes a minor amendment to section 9 of the WFGA 2015.

Section 48 - Coming into force

116. Subsection (1) brings section 48 of the Act into force the day after the day of Royal Assent.

117. All other provisions of the Act come into force by order made by the Welsh Ministers (subsection (1)). Subsection (2) allows orders that bring provisions into force to appoint different days for different purposes and subsection (3) enables orders to make transitory, transitional and saving provision in connection with bringing provisions into force.

Section 49 - Short title

118. This section provides that the short title of the Act is the Social Partnership and Public Procurement (Wales) Act 2023.

SCHEDULE 1

119. Schedule 1 lists the organisations, bodies, and officeholders that are contracting authorities and therefore subject to the socially responsible procurement duties in Part of the Act.

SCHEDULE 2

120. Schedule 2 makes provision for the review of socially responsible procurement objectives by each contracting authority in the event of the amendment of the well-being goals, to which contracting authorities must have regard when undertaking their duties under Part 3 of the Act. It also enables contracting authorities to review their objectives at any time. If a contracting authority revises its objectives they must be published as soon as reasonably practicable.

RECORD OF PROCEEDINGS IN SENEDD CYMRU

121. The following table sets out the dates for each stage of the Act's passage through the Senedd. The Record of Proceedings and further information on the passage of this Act can be found on the Senedd website at:
<https://business.senedd.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IIId=39479>

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)
2023 (dsc 1)*

a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 24 Mai 2023

Cyfnod	Dyddiad
Cyflwynwyd	7 Mehefin 2022
Cyfnod 1 - Dadl	29 Tachwedd 2022
Cyfnod 2 Pwyllgor Craffu - ystyried gwelliannau	23 Ionawr 2023
Cyfnod 3 Cyfarfod llawn - ystyried gwelliannau	07 Mawrth 2023
Cyfnod 4 Cymeradwyaeth gan Senedd Cymru	14 Mawrth 2023
Y Cydsyniad Brenhinol	24 Mai 2023

© Hawlfraint y Goron 2023

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Jeff James, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin

*These notes refer to the Social Partnership and Public Procurement (Wales) Act 2023 (asc 1)
which received Royal Assent on 24 May 2023*

Stage	Date
Introduced	7 June 2022
Stage 1 - Debate	29 November 2022
Stage 2 Scrutiny Committee - consideration of amendments	23 January 2023
Stage 3 Plenary - consideration of amendments	07 March 2023
Stage 4 Approved by the Senedd	14 March 2023
Royal Assent	24 May 2023

© Crown copyright 2023

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.



a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein

www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost

TSO

Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN

Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070

Archebion ffacs: 0333 202 5080

E-bost: customer.services@tso.co.uk

Ffôn Testun: 0333 202 5077

TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online

www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone, Fax & E-mail

TSO

PO Box 29, Norwich, NR3 1GN

Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070

Fax orders: 0333 202 5080

E-mail: customer.services@tso.co.uk

Textphone: 0333 202 5077

TSO@Blackwell and other Accredited Agents

ISBN 978-0-348-11970-1



9 780348 119701